# *Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol

Astudiaeth Achos 6

## Gwybodaeth

**Ysgol Gynradd Jenner Park, Bro Morgannwg**

212 o Ddysgwyr

51% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol
- ✓ Ailgylchu

## Yr Angen a Amlygwyd

Mae cost gwisg ysgol gan gyflenwyr traddodiadol yn uchel, sy'n golygu bod teuluoedd yn methu fforddio ei phrynu. Roedd y plant yn sylweddoli eu bod yn edrych yn wahanol ac yn teimlo'n hunan-ymwybodol. Mae gwisg ysgol â bathodyn arni yn dal i gael ei chynnig i rieni am bris cystadleuol, nid yw'n orfodol ac rydyn ni wedi symud tuag at liwiau gwisg ysgol.

## Cost y newid

Dim cost, ond rydyn ni'n dibynnu ar gyfraniadau ail law.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Camau a gymerir

- ✓ **Wedi symud at liwiau gwisg ysgol.** Nid yw bathodynnau'n orfodol
- ✓ Mae **gwisg ysgol ail law** mewn adran drefnus **yn 'y Pantri',** ein siop 'talwch fel y teimlwch'
- ✓ **Ymgynghorwyd â'r disgyblion** ynghylch dewisiadau ar gyfer y wisg ysgol
- ✓ Mae ein **Hymgysylltydd Teuluoedd** yn gweithio i **annog, cefnogi a chynghori** teuluoedd ar opsiynau a grantiau
- ✓ **Ymchwil a chyngor** ar opsiynau lleol, amgen o ran **prynu gwisg ysgol ratach**

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Dysgwyr
- ✓ Rhieni a gofalwyr
- ✓ Staff, yr Uwch Dîm Arwain a'r Llywodraethwyr

**Dysgwyr:** Trwy'r ymgynghoriad

**Rhieni :** Ymgynghorwyd â nhw ynghylch dewisiadau gwisg ysgol, 'crysau t a hwdis ymadawyr'. Wedi ymgysylltu, a chael cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth.

**Staff, Arweinwyr a Llywodraethwyr:** Cytunwyd ar system newydd, mae'r staff yn ymchwilio i fanwerthwyr, yn archebu ac yn rheoli'r stoc a thasgau lluosog yr Ymgysylltydd Teuluoedd.

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ **Llai o broblemau hunan-barch** yn sgîl methu fforddio gwisg ysgol **ymhlith y RHIENI a'r DISGYBLION**
- ✓ **Mwy o ymgysylltiad â rhieni a theuluoedd** yn yr ysgol
- ✓ **Llai o gost i deuluoedd**
- ✓ **Mwy o blant yn gwisgo gwisg ysgol**
- ✓ Mae ailgylchu yn fwy **eco-gyfeillgar** ac mae'r ysgol yn cefnogi hynny

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Rydyn ni'n dal i gynnig gwisg ysgol â bathodyn arni os yw rhieni'n dymuno. Cymerodd amser i ni chwilio am gyflenwyr sy'n cynnig y prisiau mwyaf cystadleuol. Mae hyn yn parhau er mwyn sicrhau bod y prisiau'n gystadleuol o hyd. Hefyd, roedd angen ymchwilio i gyflenwyr lleol gwisg heb fathodyn i'n galluogi i gynghori rhieni am hynny.

## Cyngor i ysgolion eraill

Pennwch aelod o'r staff i fod yn brif ddolen gyswllt ac yn unigolyn â chyfrifoldeb

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu: djmorris@valeofglamorgan.gov.uk